# Centre Name Here

# Y weithdrefn gwacáu mewn argyfwng ar gyfer arholiadau

Wrth ymdrin ag argyfwng **rhaid** i chi fod yn ymwybodol o unrhyw gyfarwyddiadau gan asiantaethau lleol neu genedlaethol perthnasol.

Dylid cyfeirio at y ddogfen ganlynol hefyd:
https://www.gov.uk/government/publications/bomb-threats-guidance/procedures-for-handling-bomb-threats

Mewn argyfwng megis larwm tân neu rybudd am ddyfais ffrwydrol, rhaid i'r goruchwyliwr weithredu fel a ganlyn:

- atal yr ymgeiswyr rhag ysgrifennu;
- casglu'r gofrestr presenoldeb (er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr i gyd yn bresennol) a gwacáu'r ystafell arholi yn unol â chyfarwyddiadau'r awdurdod priodol;
- cynghori'r ymgeiswyr i adael yr holl bapurau cwestiynau a sgriptiau yn yr ystafell arholi. Rhaid cynghori ymgeiswyr i gau eu llyfryn ateb;
- sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gadael yr ystafell mewn tawelwch;
- sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cael eu goruchwylio mor agos â phosibl tra byddant allan o'r ystafell arholi fel nad ydynt yn trafod yr arholiad o gwbl;
- gwneud nodyn o amser yr amhariad a'i hyd;
- caniatáu i'r ymgeiswyr gael gweddill yr amser gweithio a bennwyd ar gyfer yr arholiad pan fydd yn ailgychwyn;
- os mai ychydig o ymgeiswyr yn unig sydd yna, ystyried y posibilrwydd o fynd â'r ymgeiswyr (a'r papurau cwestiynau a sgriptiau) i fan arall i orffen yr arholiad;
- paratoi adroddiad llawn o'r digwyddiad a'r camau gweithredu a gymerwyd, a'i anfon at y corff dyfarnu perthnasol.